CAERDYDD

CARDIFF

DINAS A SIR CAERDYDD
CITY AND COUNTY OF CARDIFF

| | |
|---|---|
| **GWYS Y CYNGOR** | DYDD IAU, 24 HYDREF 2019 |
| **COUNCIL SUMMONS** | THURSDAY, 24 OCTOBER 2019, |

Fe’ch gwysir I fynychu cyfarfod **CYNGOR SIR DINAS A SIR CAERDYDD**, a gynhelir yn Siambr y Cyngor - Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Heol Gerddi'r Orsedd, Caerdydd, CF10 3ND on Dydd Iau, 24 Hydref 2019 at 4.30 pm I drafod y materion a nodir yn yr agenda atodedig.

**Davina Fiore**
**Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol**

Neuadd y Sir
Caerdydd
CF10 4UW

Dydd Gwener, 18 Hydref 2019

---

Hyrwyddo cydraddoldeb a pharch at eraill   Gwrthrychedd a priodoldeb   Anhunaoldeb a stiwardiaeth
Uniondeb   Dyletswydd i gynnal y gyfraith   Atebolrwydd a bod yn agored

Trwy dderbyn y Pecyn Agenda hwn yn electronig, rydych wedi arbed yr Awdurdod tua. £ 14.08 mewn costau argraffu

## GWE-DARLLEDU

Caiff y cyfarfod hwn ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw a/neu yn olynol trwy wefan y Cyngor. Caiff yr holl gyfarfod ei ffilmio, heblaw am eitemau eithriedig neu gyfrinachol, a bydd y ffilm ar gael ar y wefan am 12 mis. Cedwir copi o'r recordiad yn unol â pholisi cadw data'r Cyngor.

Ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a gaiff y cyfarfod cyfan neu ran ohono ei ffilmio. Fel rheol, ni chaiff ardaloedd y cyhoedd eu ffilmio. Fodd bynnag, wrth fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r ardal gyhoeddus, mae aelodau'r cyhoedd yn cydsynio i gael eu ffilmio ac y defnyddir y lluniau a recordiadau sain hynny o bosibl at ddibenion gwe-ddarlledu a/neu hyfforddi.

Os oes gennych gwestiynau ynghylch gwe-ddarlledu cyfarfodydd, cysylltwch â'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau ar 02920 872020 neu e-bost Gwasanethau Democrataidd

| Eitem | | Tua Amser | Max Amser |
|---|---|---|---|
| 1 | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br><br>*Derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.* | 4.30 pm | 5 mins |
| 2 | **Datgan Buddiannau**<br><br>*Derbyn datganiadau buddiannau (i'w gwneud yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau)* | | |
| 3 | **Cofnodion**<br>*(Tudalennau 9 - 32)*<br><br>*Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Medi 2019 fel cofnod cywir.* | | |
| 4 | **Isetholiad yr Eglwys Newydd a Thongwynlais**<br><br>I adrodd canlyniad Isetholiad yr Eglwys Newydd a Thongwynlais a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2019 a chroesawu'r Aelod etholedig newydd. | | |
| 5 | **Cwestiynau Cyhoeddus**<br><br>*Derbyn cwestiynau yr hysbyswyd amdanynt ymlaen llaw gan Aelodau'r Cyhoedd.* | 4.40 pm | 5 mins |
| 6 | **Deisebau**<br><br>*Derbyn deisebau gan Aelodau Etholedig i'r Cyngor.* | 4.45 pm | 5 mins |
| 7 | **Cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer**<br><br>*Derbyn cyhoeddiadau'r Arglwydd Faer gan gynnwys Cydnabyddiaethau a Gwobrau.* | 4.50 pm | 5 mins |
| 8 | **Hysbysiad o Swydd Wag**<br>*(Tudalennau 33 - 34)*<br><br>*Adroddiad y Prif Weithredwr* | 4.55 pm | 5 mins |
| 9 | **Adolygiad o Gorsafoedd Pleidleisio**<br>*(Tudalennau 35 - 100)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau* | 5.00 pm | 15 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *Cyfreithiol* | | |
| **10** | **Adroddiad Monitro Blynyddol Cynllun Datblygu Lleol Caerdydd**<br>*(Tudalennau 101 - 348)* | 5.15 pm | 30 mins |
| **11** | **Polisi Enwi Strydoedd**<br>*(Tudalennau 349 - 444)* | 5.45 pm | 20 mins |
| **12** | **Datganiadau'r Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet**<br>*(Tudalennau 445 - 478)*<br><br>*Derbyn datganiadau gan yr Arweinydd ac Aelodau'r Cabinet* | 6.05 pm | 45 mins |
| **Egwyl** | **(6.50)** | | |
| **Hysbysiad o Gynnig** | | | |
| **13** | **Cynnig 1**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd Rhys Taylor<br><br>Eiliwyd gan: Y Cynghorydd Joe Boyle<br><br>Mae'r Cyngor hwn:<br><br>1. Yn croesawu'r ffaith i'r weinyddiaeth gyfredol ddatgan argyfwng hinsawdd ym mis Mawrth 2019, gan nodi bod tystiolaeth yn dangos effaith newid yn yr hinsawdd a achosir gan fodau dynol.<br><br>2. Yn derbyn canfyddiadau datganiad proffesiynol '*Asesiad carbon bywyd cyfan ar gyfer yr amgylchedd wedi'i adeiladu'* y Sefydliad Brenhinol y Syrfëwyr Siartredig 2017 bod yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio i weithredu adeiladau cyfredol yn cynrychioli'r effaith carbon fwyaf sylweddol o'r amgylchedd wedi'i adeiladu, gan gyfrannu 30% o allyriadau cyfan y DU yn 2017.<br><br>3. Yn cydnabod, bod, yng ngeiriau Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU [UK GBC], 'the UK building industry currently rarely measures or reports on embodied carbon impacts for the maintenance, repair, refurbishment and end-of-life stages of a building's lifecycle.' | 7.05 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 4. Yn credu bod gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae i sicrhau bod rhaid i brojectau adeiladu mawr, y mae ganddynt fudd ynddynt, ystyried a lleihau'r holl effeithiau carbon sy'n dod o'r projectau hynny.<br><br>5. Yn gwrthod, yng ngoleuni ei Argyfwng Hinsawdd a ddatganwyd, cyfiawnhau, cymeradwyo neu symud ymlaen brojectau adeiladu mawr na allant brofi y byddant yn brojectau sero carbon o ran defnyddio ynni gweithredol ac adeiladu.<br><br>Felly bydd y Cyngor hwn:<br><br>• Yn mabwysiadu diffiniad fframwaith *Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y DU, fel y mae yn awr ac fel y bydd yn y dyfodol, gan atodi'r fframwaith i gynllun datblygu, polisiau allweddol a chanllaw cynllunio'r Cyngor, fel sy'n berthnasol.<br><br>• Yn gofyn bod yr holl brojectau adeiladu mawr yn dangos eu bod wedi cyflawni statws carbon sero net, trwy roi fframwaith *Adeiladau Sero Carbon Net* UKGBC, cyn cael cymeradwyaeth y cabinet.<br><br>• Yn cofrestru ar gyfer *Ymrwymiad Adeiladau Sero Carbon Net* Cyngor Adeiladau Gwyrdd y Byd, sy'n 'herio cwmniau, dinasoedd, gwladwriaethau a rhanbarthau llofnodol i gyflawni carbon sero net ar gyfer ynnig gweithredol yn eu portffolios erbyn 2030, ac i eirioli i'r holl adeiladau fod yn rhai sero net wrth weithredu erbyn 2050.' | | |
| **14** | **Cynnig 2**<br><br>Cynigiwyd gan: Y Cynghorydd John Lancaster<br><br>Eiliwyd gan: Councillor Shaun Jenkins<br><br>Yn unol â Rhifyn 10 Polisi Cynllunio Cymru (Rhagfyr 2018), y gwahaniaeth hanfodol rhwng lletem glas a Llain Las yw, "…y dylai tir mewn Llain Las gael ei ddiogelu am gyfnod hwy na chyfnod y cynllun datblygu presennol perthnasol, tra dylid adolygu polisïau lletemau glas fel rhan o'r broses o adolygu'r cynllun datblygu."<br><br>Mae'r Cyngor hwn yn nodi:<br><br>• Y bydd y Cynllun Datblygu Lleol cyfredol yn dod i ben yn 2026. | 7.35 pm | 30 mins |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Y caiff y broses o ddiogelu’r lletem glas yng ngogledd Caerdydd, sy’n ymestyn o Greigiau i Laneirwg ei hadolygu yn rhan o’r CDLl nesaf.<br><br>• Bod yr Ymgynghoriad ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Drafft yn nodi:<br>“*Mae Llywodraeth Cymru o blaid defnyddio lleiniau gwyrdd yn rhanbarth y De-ddwyrain i reoli a chynllunio twf trefol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi’r cyd-destun polisi ar eu cyfer. Mae’n rhaid i’r Cynllun Datblygu Strategol nodi llain las sy’n cynnwys yr ardal i’r gogledd o’r M4 o Groesfannau Hafren i Ogledd Caerdydd.”*<br><br>Felly rydym yn galw ar y Cyngor hwn i weithio gydag Awdurdodau Lleol cyfagos i ailddatgan a gwella diogelu trwy ddynodi’r lletem glas cyfredol yn Llain Las er mwyn diogelu asedau gwyrdd y Ddinas yn fwy hirdymor. | | |
| **15** | **Cwestiynau ar Lafar**<br><br>*Cwestiynau ar lafar i’r Arweinydd, Aelodau’r Cabinet; Cadeiryddion y Pwyllgor a/neu Aelodau enwebedig o’r Awdurdod Tân.* | 8.05 pm | 60 mins |
| **16** | **Materion Brys** | 9.05 pm | |
| **Materion y Cyngor nas Gwrthwynebir** | | | |
| **17** | **Bws Caerdydd, Penodi Cyfarwyddwr Gweithredol**<br>*(Tudalennau 479 - 484)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau.*<br><br>**Mae Atodiad 1 o’r adroddiad wedi’i eithrio o’i gyhoeddi gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth wedi’i heithrio o’r disgrifiad sydd ym mharagraff 12 a 13 o Ran 4 a pharagraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.** | 9.05 pm | 5 mins |
| **18** | **Penodiadau Pwyllgor**<br>*(Tudalennau 485 - 486)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol* | 9.10 pm | |
| **19** | **Penodi Cynrychiolwyr i Gyrff Allanol** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | *(Tudalennau 487 - 488)*<br><br>*Adroddiad y Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol* | | |
| **20** | **Cwestiynau Ysgrifenedig**<br><br>*Yn unol â Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, Rheol 17(f), caiff Cwestiynau Ysgrifenedig eu hystyried a'r ymateb ei gynnwys fel cofnod yng nghofnodion y cyfarfod.* | | |